**Rhif: LIC46473**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad - crynodeb o ymatebion

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn

Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Crown copyright xxxx Digital ISBN

## Trosolwg

Nod y cynllun gweithredu yw:

- cefnogi pobl hŷn i fyw yn annibynnol a chydag urddas
- rhoi cymorth digonol gan wasanaethau diogelu i bobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- helpu pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol i gael gafael ar gymorth perthnasol
- amddiffyn pobl hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso

## Camau gweithredu angenrheidiol

Dogfen ar gyfer gwybodaeth yn unig yw'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Galluogi Pobl
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Philip.mulraney@gov.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: hyperddolen

## Cynnwys

Cynnwys ..... 3
Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn ..... 44
Adran 1 ..... 4
Cyflwyniad ..... 4
Digwyddiadau Ymgynghori ..... **Error! Bookmark not defined.**
Adran 2 ..... 7
Dadansoddiad Llywodraeth Cymru ..... 7
Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad ..... 8
Atodiad A – Rhestr o Ymatebwyr ..... 14

## Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin ac Esgeuluso Pobl Hŷn

## Adran 1

## Cyflwyniad

Mae'r cynigion yn y Cynllun Gweithredu drafft i Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn adeiladu ar waith a wnaed gyda'r Grŵp Gweithredu ar Gam-drin a sefydlwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn Ebrill 2020. Mae'n ddarn o waith trawslywodraethol gyda ffocws nid yn unig ar fynd i'r afael â cham-drin ac esgeuluso pobl hŷn, ond ar greu'r amgylchiadau lle mae cam-drin ac esgeuluso pobl hŷn yn llai tebygol o ddigwydd. Hefyd, mae'r Cynllun Gweithredu yn deillio o Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymdeithas sy’n Heneiddio 'Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy’n Heneiddio' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021. Mae Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yn nodi y dylai pobl hŷn allu byw mewn urddas ac yn ddiogel heb ddioddef cam-fanteisio a chamdriniaeth gorfforol neu feddyliol. Mae Llywodraeth Cymru'n glir na fydd camdriniaeth nac esgeulustod o unrhyw fath yn erbyn pobl hŷn yn cael eu goddef. Nid yw oedran yn lleihau hawl unigolyn i fyw gydag urddas a pharch. Mae'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu cyfres o fesurau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu rhoi ar waith ledled y Llywodraeth i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o gamdriniaeth, ac i'w hatal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin. Mae'n datblygu llawer o waith da sydd wedi’i wneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynllun gweithredu drafft rhwng 8 Awst 2022 a 17 Hydref 2022.
Dosbarthwyd yr ymgynghoriad ymhlith y canlynol:

- ADSS Cymru
- Age Cymru
- BASW
- Both Parents Matter
- Bwrdd Diogelu Oedolion Caerdydd a'r Fro
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf Morgannwg
- DEWIS Choice
- Heddlu Dyfed Powys
- EROSH

- Get Safe On-line
- Heddlu Gwent
- Bwrdd Diogelu Oedolion Gwent
- Hourglass Cymru
- Llamau
- Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Grŵp Gweithredu ar Gam-drin y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Aelodau'r Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio
- Cartrefi Cymoedd Merthyr
- Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru
- Safonau Masnach Cenedlaethol
- Gwarchod Cymdogaeth
- Rhwydwaith Diogelu'r GIG
- Heddlu Gogledd Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Pobl yn Gyntaf Rhondda Cynon Taf
- Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Heddlu De Cymru
- Safonau Masnach (cynrychiolydd Cymru)
- Uned Atal Trais Cymru
- CGGC
- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cymorth i Ferched Cymru (Llinell Gymorth Byw Heb Ofn)
- Bwrdd Diogelu Oedolion Gorllewin Morgannwg
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru

Daeth cyfanswm o 57 o ymatebion i law. Mae rhestr o'r ymatebwyr (lle dewison nhw beidio aros yn ddienw) ynghlwm yn Atodiad A. Mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghyd â dadansoddiad Llywodraeth Cymru ar gael yn Adran 2.

## Digwyddiadau Ymgynghori

Ni chynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori penodol ond datblygwyd y cynllun gweithredu drafft gyda grŵp gweithredu i atal camdriniaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn a'i gyflwyno a'i drafod mewn digwyddiadau niferus gan gynnwys:

- Grŵp Gweithredu'r Comisiynydd Pobl Hŷn ar Atal Cam-drin – 23 Mawrth 2021 a 9 Tachwedd 2021

- Cyfarfod Agored dan ofal y Comisiynydd Pobl Hŷn ar Atal Cam-drin Pobl Hŷn – 7 Rhagfyr 2021
- Cyflwyniad i Reolwyr Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu – 10 Mawrth 2022
- Cadeiryddion y Byrddau Diogelu – 26 Ionawr 2022 a 23 Tachwedd 2022
- 2 Gyflwyniad yn ystod Wythnos Diogelu 2021; Cynhadledd Diogelu Oedolion a gynhaliwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol 17 Tachwedd 2021 a 'Digwyddiad Mawr' Eiriolaeth 18 Tachwedd 2021 a gynhaliwyd gan Age Cymru

Cynhaliwyd yr holl ddigwyddiadau yn rhithiol a'r bwriad oedd hyrwyddo cyswllt â'r ymgynghoriad a sicrhau bod gan randdeiliaid allweddol ddealltwriaeth sylfaenol o feysydd perthnasol yr ymgynghoriad. Defnyddiwyd sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru hefyd i ddosbarthu gwybodaeth am yr ymgynghoriad.

## Adran 2

## Dadansoddiad Llywodraeth Cymru

Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gadarnhaol yn eu hymatebion i'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori ac yn gyffredinol roedd sylwadau yn ffafriol, er gyda rhai awgrymiadau am ffyrdd y gellid gwella'r cynllun a diogelu pobl hŷn yn well rhag profi neu fod mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod.

Prif themâu yr ymatebion yw'r angen i:

- Ehangu'r amcanion cyffredinol i gynnwys y rhai sydd heb fod angen gofal a chymorth
- Darparu ar gyfer mecanwaith adrodd ar weithredu'r Cynllun. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb trwy fynd ati i gyhoeddi adroddiad cyflawni o fewn 12 mis i'w gyhoeddi
- Rhoi ffocws cryfach ar hawliau pobl hŷn
- Mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig.
- Hyrwyddo rhagor o ymchwil er mwyn nodi ymyrraeth gynnar a strategaethau ataliol, er mwyn atal cam-drin pobl hŷn
- Ystyried ymhellach ac annog gwaith sydd ar y gweill yn Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi diwylliannau cadarnhaol ym maes gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Mae'r pwyntiau hyn yn cael sylw yn y drafft diwygiedig

## Ymateb i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Ym mhob achos mae'r canrannau ar gyfer y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn

**1. A ydych yn cytuno bod y tri amcan cyffredinol yn briodol? Os na, beth ddylen nhw fod?**

| | | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Cytuno'n gryf | 38.89% | 21 |
| 2 | Tueddu i gytuno | 40.74% | 22 |
| 3 | Anghytuno'n gryf | 5.56% | 3 |
| 4 | Tueddu i anghytuno | 11.11% | 6 |
| 5 | Ddim yn siŵr | 3.7% | 2 |

Roedd y rhan helaethaf o'r ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn tueddu i gytuno, neu gytuno'n gryf, fod yr amcanion yn briodol, yn glir ac yn berthnasol. Gwnaed rhai awgrymiadau bod angen rhoi sylw i'r modd y mae pobl hŷn yn dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol er mwyn i'w hanghenion gael eu diwallu, y dylai fod 'Hwb Gwybodaeth i'r Person Hŷn' penodol sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar-lein ac allan yn y gymuned. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod tudalennau gwybodaeth a chyngor Age Cymru (https://www.ageuk.org.uk/cymraeg/age-cymru/gwybodaeth-a-chyngor/) yn cyflawni swyddogaeth debyg a byddwn yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o gryfhau'r swyddogaeth hon.

Pwysleisiwyd hefyd yr angen am hyfforddiant mewn gwahanol ffyrdd o gyfathrebu a nodi arwyddion o gam-drin/esgeulustod, ynghyd â'r pwysau sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru'n credu bod y Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol (https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol) a lansiwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru ym mis Hydref 2022 yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi, dysgu a datblygu yn cyd-fynd â rôl yr ymarferydd fel eu bod wedi paratoi'n dda ac yn fedrus i gyflawni eu rôl.

Awgrymodd un ymatebydd y byddai cael datganiad gweledigaeth fwy clir ar gyfer Cymru o Blaid Pobl Hŷn (fel y'i disgrifir yn y cyflwyniad) yn cryfhau'r ddogfen, lle mae hawliau Pobl Hŷn yn cael eu cadarnhau, a gweld y cynllun penodol hwn wedi'i nodi'n glir yn y cyd-destun hwnnw, ac y dylid newid y trydydd amcan fel mai dyma'r amcan

cyntaf, sef "Pobl hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael eu hamddiffyn rhag wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso". Awgrymwyd ymhellach y gellid diwygio’r amcan hwn i fod yn fwy cynhwysol o bobl hŷn waeth beth fo’u hanghenion am ofal a chefnogaeth. Hefyd, y dylid cryfhau iaith 'grymuso' a byddai hynny'n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig nodi nad yw'r cynllun Gweithredu hwn yn disodli nac yn cymryd lle 'Cymru o Blaid Pobl Hŷn' ond y bwriedir iddo ategu’r adroddiad hwnnw.

Awgrymodd un ymatebydd nad oedd y drafft yn gynhwysol tuag at ddynion sy’n dioddef trais. Mae cyflawnwyr trais yn cynnwys menywod, plant ac aelodau eraill o'r teulu yn ogystal â ffrindiau. Cydnabyddir hyn, a chyfeirir at strategaeth VAWDASV 2022-2026 (https://www.llyw.cymru/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2022-i-2026-html)

**2. A yw'r materion penodol sy'n wynebu pobl hŷn mewn perthynas â cham-drin ac esgeulustod posibl yn cael eu cynnwys yn briodol a'u cyflwyno mewn ffordd glir a defnyddiol? Os na, beth arall sydd angen ei gynnwys (a sut)?**

| | | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Ydyn | 53.19% | 25 |
| 2 | Nac ydyn | 31.91% | 15 |
| 3 | Ddim yn siwr | 14.89% | 7 |

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y materion sy'n wynebu pobl hŷn o ran cam-drin ac esgeulustod posibl wedi'u nodi mewn ffordd glir a defnyddiol.

Er hynny, nid oedd lleiafrif sylweddol yn cytuno, a chafwyd nifer o awgrymiadau defnyddiol. Roedd cam-drin domestig yn un maes lle awgrymwyd y dylid rhoi mwy o sylw i'r anghenion a oedd yn benodol i bobl hŷn. Cydnabyddir hyn a bydd yn cael ei ddatblygu trwy lif gwaith Pobl Hŷn o dan strategaeth genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDA). Awgrymwyd yr angen am ddyrannu camau gweithredu a oedd yn fwy clir ac ystyriol o amser. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad cyflawni ymhen 12 mis o gyhoeddi'r cynllun gweithredu terfynol.

Gwelwyd bod cymorth i Ofalwyr yn fater o bryder. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig cysylltu’r cysylltiadau rhwng strategaethau a chynlluniau gweithredu sy'n mynd i'r afael â gwahanol feysydd polisi, yn yr achos hwn fel bod y Strategaeth bresennol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael ei llywio'n briodol gan bryderon Diogelu.

Er bod cyfeiriadau at gynhyrchu canllawiau ymarfer yn cael eu croesawu, anogwyd cefnogaeth i'w gweithredu. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gellid cydnabod anghenion iechyd anghymesur pobl hŷn, yn enwedig, yn y cysyniad o ragfarn ar sail oedran.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cysylltu'n well y cysylltiadau posibl rhwng pwysau costau byw, ynysu cymdeithasol a cham-drin ariannol, ynghyd â'r heriau penodol ynghylch gadael perthynas gamdriniol pan fydd rhywun yn hŷn.

**3. A yw'r dulliau o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso wedi'u nodi mewn ffordd glir a defnyddiol?**

| | | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Cytuno'n gryf | 18% | 9 |
| 2 | Tueddu i gytuno | 50% | 25 |
| 3 | Anghytuno'n gryf | 8% | 4 |
| 4 | Tueddu i anghytuno | 20% | 10 |
| 5 | Ddim yn siŵr | 4% | 2 |

Dadleuodd nifer o'r ymatebwyr dros fwy o gyd-gynhyrchu gydag asiantaethau gwirfoddol a statudol, a gyda phobl hŷn. Awgrymodd un y gellid rhoi mwy o ffocws ar ehangu cofrestru a rheoleiddio gweithwyr gofal cymdeithasol.

Croesawyd y gwaith o gynhyrchu canllawiau ar achosion o hunan-esgeulustod a rhoi mwy o gydnabyddiaeth i ofalwyr di-dâl er i ffocws ar gymorth anariannol i ofalwyr di-dâl gael ei annog. Unwaith eto, galwyd am fwy o eglurder ynghylch amserlenni, yn ogystal â'r angen am ddata manylach ar natur y cam-drin a brofwyd gan bobl hŷn sy'n perthyn i'r gwahanol grwpiau.

Nodwyd y byddai hyfforddiant penodol i oedran a chydnabyddiaeth o'r heriau sy'n gysylltiedig â therfynu perthynas dreisgar pan fydd rhywun yn hŷn yn feysydd buddiol ar gyfer ffocws pellach.

**4. A ydych yn cytuno bod y Cynllun Gweithredu yn mynd i'r afael â'r prif ffactorau risg sy'n wynebu pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso? Os na, beth arall sydd angen ei gynnwys?**

| | | Canran Ymatebion | Cyfanswm Ymatebion |
|---|---|---|---|
| 1 | Cytuno'n gryf | 20.4% | 10 |
| 2 | Tueddu i gytuno | 46.94% | 23 |
| 3 | Anghytuno'n gryf | 14.29% | 7 |
| 4 | Tueddu i anghytuno | 18.37% | 9 |
| 5 | Ddim yn siŵr | 0.00% | 0 |

Roedd sawl sylw yn canolbwyntio ar yr angen i fynd i'r afael â'r pwysau ar bobl hŷn yn ystod cyfnod y pandemig, yn benodol, mewn perthynas â'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn deillio o unigrwydd ac unigedd, gan gynnwys mynediad at dechnolegau digidol. Dywedodd un ymatebydd 'Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu anghydraddoldebau iechyd sylweddol ar draws pob rhan o gymdeithas y DU. Mae adroddiadau ymchwil a pholisi wedi nodi'r canlyniadau gwaeth a gafwyd yn y gwasanaethau cymorth i bobl o gefndiroedd o gymunedol ymylol a chymunedau sy'n cael eu diffinio yn ôl eu hil. Mae cam-drin ac esgeulustod yn fygythiad i bobl o bob cefndir ac mae'n bwysig cydnabod a mynd i'r afael â hyn drwy weithio gyda sefydliadau trydydd sector cymunedol dibynadwy a sefydliadau VCSE [Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol] sydd â'u gwreiddiau mewn cymunedau amrywiol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn effeithiol i bob person hŷn yng Nghymru'.

Roedd croeso i'r ffocws ar ganfod ac ymateb i gam-drin domestig a'i effaith ar bobl hŷn a phwysleisiwyd yr angen am lety lloches addas.

Croesawyd y sylw i'r angen i hyrwyddo hawliau pobl hŷn. Nodwyd bod ymarferoldeb technegol rhannu data a gwybodaeth rhwng asiantaethau yn feysydd a fyddai'n elwa o gael sylw.

**5. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol:**

| Cwestiwn penagored - 71.92%, or 41, cyfanswm ymatebion |
|---|
| Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at bwysigrwydd derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith, ac y gallai hyn fod hyd yn oed yn fwy arwyddocaol i bobl hŷn sydd â chyflyrau penodol, fel dementia. Awgrymodd eraill fod y galw uchel am wasanaethau cyfieithu, a chost, yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwasanaethau yn newis iaith defnyddiwr y gwasanaeth ar adeg y pwynt cyswllt cyntaf.<br><br>Cyfeiriodd eraill at yr angen i ddefnyddio mwy ar y dull 'Cynnig Rhagweithiol' a awgrymir yn 'Mwy na geiriau' (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/pecyn-gwybodaeth-gweithredu%E2%80%99r-cynnig-rhagweithiol-gwasanaethau-cymdeithasol-a-gofal-cymdeithasol_1.pdf)<br><br>Dywedodd un y byddai gweithredu technoleg cyfieithu byw yn galluogi unigolion a gweithwyr proffesiynol i gyfathrebu'n fwy rhugl a rhoi mwy o gyfle i'r unigolyn siarad yn ei ddewis iaith. |

**6. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

| Cwestiwn penagored - 71.92%, or 41, cyfanswm ymatebion |
| --- |
| Ystyriodd nifer o'r ymatebwyr yr heriau cyffredinol sy'n wynebu'r Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol o ran y gweithlu ac yn ariannol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd gofal 'seibiant', yn ogystal â'r angen am fwy o ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Trafodwyd y gydberthynas rhwng lwfans gofalwyr a system budd-daliadau'r wladwriaeth (pensiynau).<br><br>Galwodd un am fwy o eglurder a phenodoldeb ynghylch y camau gweithredu a'r amserlenni cysylltiedig, fel crynodeb neu atodiad, tra bod sawl un arall yn nodi bod y cynllun gweithredu yn gynhwysfawr ac yn cwmpasu nifer sylweddol o feysydd sy'n gofyn am ffocws a blaenoriaeth, gyda phenawdau a chyfrifoldebau clir.<br><br>Roedd un yn awgrymu'r angen am gasglu mwy o ddata cyfredol.<br>Awgrymodd un ymatebydd y dylai fod mwy o ffocws ar y driniaeth y mae pobl hŷn yn ei derbyn gan y gwasanaethau iechyd yn ogystal â chan ofal cymdeithasol. Awgrymodd un fod y cyfnod clo wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion o esgeulustod personol a chronni gormodol a bod angen mynd i'r afael â hyn, ac y dylai'r cynllun gydnabod pwysigrwydd cymorth sy'n sicrhau cartref clyd, diogel, hygyrch fel modd o hybu gwydnwch ac atal camdriniaeth yn y cartref. |

## Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr

| Rhif | Cyfrinachol | Cyfrinachol | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | | Na | Wendy Williams CBE | Arolygiaeth Gwasanaethau Tân ac Achub EF |
| **2.** | Ye | | | |
| **3.** | | Na | Russell Goodway | Fferylliaeth Gymunedol Cymru |
| **4.** | | Na | Mandy Nichols-Davies | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| **5.** | | Na | | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru |
| **6.** | | Na | Linda Anderton | Is-grŵp VAWDASV Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru |
| **7.** | | Na | Kylie Sisson | Pwyllgor y Gwyddorau Cristnogol ar Gyhoeddi |
| **8.** | | Na | | Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint |
| **9.** | | Na | SG Milsom | Cynghrair Pobl Hŷn Cymru |
| **10.** | | Na | Jennifer Mills | Cymorth i Ferched Cymru |
| **11.** | | Na | Dr Alex Walker | Uned Atal Trais Cymru |
| **12.** | | Na | Alwyn Fortune | Cymdeithas Frenhinol Fferyllol Cymru |
| **13.** | | Na | Melanie Minty | Fforwm Gofal Cymru |
| **14.** | | Na | Mark Bowler | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **15.** | | Na | Ceri Wood | Byrddau Diogelu Gwent |
| **16.** | | Na | Jane Harris | Age Concern Pontarddulais |
| **17.** | | Na | Jake Smith | Gofalwyr Cymru |
| **18.** | | Na | Ceri Cryer, Helen Twidle, Louise Hughes | Age Cymru |
| **19.** | | Na | Stewart Blythe | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| **20.** | | Na | Moussa Haddad | Vegetarian for Life |
| **21.** | | Na | George Parish-Wallace | Cymdeithas Alzheimer Cymru |
| **22.** | | Na | Katherine Lowther | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| **23.** | Ye | | | |
| **24.** | | Na | Helena Herklots CBE | Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| **25.** | | Na | Christopher Williams | Cynghrair Henoed Cymru |
| **26.** | Ye | | | |
| **27.** | Ye | | | |

| Rhif | Cyfrinachol | Cyfrinachol | Enw | Sefydliad/Ar ran |
|---|---|---|---|---|
| **28.** | Ye | | | Unigolyn |
| **29.** | Ye | | | Unigolyn |
| **30.** | Ye | | | Unigolyn |
| **31.** | Ye | | | Unigolyn |
| **32.** | Ye | | | |
| **33.** | Ye | | | |
| **34.** | Ye | | | |
| **35.** | Ye | | | |
| **36.** | | Na | Peter Bowler | Cyngor Dinas Casnewydd |
| **37.** | | Na | Richard Harrison | Grŵp Gweithredu 50+ Sir y Fflint |
| **38.** | | Na | Maria Molyneux/Madeleine Thomas | Total Care Ltd |
| **39.** | Ye | | | Unigolyn |
| **40.** | Ye | | | |
| **41.** | Ye | | | |
| **42.** | | Na | Bernadette Grabowska-Kirk | Unigolyn |
| **43.** | | Na | Delyth Pridding | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **44.** | | Na | Alaw Pierce | Cyngor Sir Ddinbych |
| **45.** | | Na | Jeremy Bacon | Unigolyn |
| **46.** | | Na | Tina Jenkins | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre |
| **47.** | | Na | Sarah McCarthy | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| **48.** | | Na | Dawn Griffin | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **49.** | | Na | Dereck Roberts | Confensiwn Pensiynwyr Cenedlaethol Cymru |
| **50.** | | Na | Isobel Lloyd | Pobl |
| **51.** | | Na | Diana Owen | Unigolyn |
| **52.** | Ye | | | |
| **53.** | | Na | Danny Tatlow | Hourglass |
| **54.** | | Na | Gaynor Daniel | Unigolyn |
| **55.** | | Na | Anastasia Fadeeva, Polina Obolenskaya, Sally McManus, Ladan Hashemi | Canolfan Trais a Chymdeithas, Prifysgol Llundain |
| **56.** | | Na | Becky Ricketts | Gofal a Thrwsio Cymru |
| **57.** | | Na | Sarah Taylor | Dinas a Sir Abertawe |